



Cyngor Sir y Fflint

Perchnogion Anifeiliaid Anwes Cyfrifol



Perchnogion Anifeiliaid Anwes Cyfrifol

Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint yn sylweddoli y gall anifeiliaid anwes gyfoethogi bywydau ond, er hynny, bydd pethau'n mynd o'i le weithiau, naill ai oherwydd bod yr anifail yn achosi niwsans i eraill, neu oherwydd na all y perchennog ymdopi â'r gwaith o ofalu amdano.

Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor a chanllawiau i denantiaid y Cyngor sy'n ystyried cael anifail anwes, ac mae'n esbonio polisi'r Cyngor ynglŷn â chadw anifeiliaid. Byddwn hefyd yn dweud wrthy ch lle y cewch hyd i gyngor ynglŷn â chadw anifeiliaid anwes.

Nod cyffredinol y Cyngor yw annog pobl i fod yn berchnogion anifeiliaid anwes cyfrifol a hyrwyddo lles anifeiliaid.

Cytundeb tenantiaeth

Un o ofynion y Cytundeb Tenantiaeth yw bod yn rhaid cael caniatâd cyn cael anifail anwes.

Ni fyddwn yn gwrthod caniatâd heb reswm digonol; fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys pa mor addas yw'ch eiddo o ystyried y math o anifail rydych yn bwriadu ei gadw. Un o ofynion eraill y Cytundeb Tenantiaeth yw y byddwch yn gwneud yn siŵr na fydd yr anifail y byddwch yn ei gadw'n cythruddo eraill neu'n achosi niwsans. Os bydd, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi gael hyd i gartref newydd i'r anifail, er y byddwn bob amser yn ceisio'n gorau i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw broblemau'n gyntaf.

Sut i wneud cais i gadw anifail anwes

Nid ydym yn disgwyl i chi wneud cais am ganiatâd i gadw anifail anwes bach sy'n cael ei gadw mewn cawell, fel bochdew neu gerbil, ac nid oes angen caniatâd i gadw pysgodyn mewn powlen neu danc i'w cadw dan do yn y cartref.

Mae angen caniatâd i gadw'r anifeiliaid a ganlyn:

Cathod, cŵn, adar mewn cawell, nadroedd ac ymlusgiaid eraill fel madfallod, dofednod/ffowls ac anifeiliaid a gaiff eu cadw'r tu allan mewn cwt neu gysgodfa arall i anifeiliaid.

Ni chewch ganiatâd i gadw rhai anifeiliaid, er enghraifft:

- Gwartheg
- Moch
- Defaid
- Geifr
- Ceffylau
- Mulod



Perchnogion Anifeiliaid Anwes Cyfrifol

Ni chewch ganiatâd fel arfer i gadw:

Unrhyw gŵn a enwir yn Neddf Cŵn Peryglus 1991, sef cŵn Pit Bull, Tosas, Fila Brasileiros a Dogo Argentinos. (Mae unrhyw newidiadau i'w cael gan DEFRA).

Neu

Unrhyw anifail sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976.

Perchnogion Anifeiliaid Anwes Cyfrifol

Bydd y Cyngor yn disgwyl i denantiaid sy'n cadw anifeiliaid eu trin mewn modd cyfrifol. Cyn cael anifail, dylech ystyried a allwch ymrwymo i wneud hyn.

Mae'n werth ymchwilio i anghenion yr anifail rydych yn ystyried ei gael, i wneud yn siŵr y gallwch ofalu amdano'n iawn.

I gael caniatâd i gadw anifail anwes, rhaid i chi gytuno i dderbyn rhai cyfrifoldebau.

Ceir enghreifftiau isod o'r mathau o amodau y gallai'r Cyngor eu rhoi ynghlwm wrth eich caniatâd i gadw anifail anwes:

- Ni chewch fridio, lletya neu werthu anifeiliaid mewn annedd y mae'r Cyngor yn ei reoli neu'n berchen arno.
- Ni chaiff cŵn fawa mewn lleoedd cyhoeddus/cymunol, ac os gwnânt, rhaid clirio'r baw ar unwaith.
- Ni chewch glymu anifeiliaid anwes neu eu gadael mewn lleoedd cymunol, mewn cyntedd, balconi neu ardd gymudol.
- Ni chewch adael anifeiliaid anwes ar eu pennau'u hunain am gyfnodau hir.
- Ni chewch adael i anifeiliaid anwes wneud sŵn sy'n niwsans i eraill, er enghraifft, cŵn yn cyfarth.
- Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i gŵn wisgo coler â thag adnabod. Dylech hefyd osod microsglodyn ynddynt rhag ofn iddynt ddianc, mynd ar goll neu gael eu dwyn. O fis Ebrill 2015 ymlaen, bydd yn rhaid i chi, yn ôl y gyfraith, osod microsglodyn mewn ci yng Nghymru.
- Dylech ofalu am anifeiliaid yn briodol. Mae hyn yn golygu y dylech roi bwyd a diod iddynt yn rheolaidd yn ôl eu hanghenion, dylech roi brechiadau iddynt a'u trin am unrhyw afiechyd neu blâu neu broblemau â pharasitiaid, fel chwain, trogod, gwiddon etc.
- Bydd yn rhaid i chi enwebu rhywun y gallwn gysylltu â nhw os na fyddwch yn gallu gofalu am yr anifail am unrhyw reswm, er enghraifft, os bydd yn rhaid i chi fynd i'r ysbty.



Pethau i'w hystyried cyn cael anifail anwes

Y gost

Gall fod yn gostus gofalu am rai anifeiliaid anwes. Bydd angen i chi ystyried y gost o'u bwydo a biliau milfeddygon. Ydych chi'n gallu darparu popeth fydd ei angen ar yr anifail, neu a fydd y gost ychwanegol yn golygu caledi ariannol i chi?

Pwy fydd yn gofalu am yr anifail os byddwch yn mynd ar wyliau? A fydd angen i chi dalu i'w letya, ac os felly, allwch chi fforddio'r gwariant ychwanegol hwn?

Amgylchedd eich anifail anwes

Pa fath o amgylchedd sydd ei angen ar yr anifail? Oes angen offer arbenigol fel tanc i ymlusgiaid, cwt cwningen neu gwt ieir. Sut fyddwch chi'n eu cynnal?

A fydd yr anifail yn unig?

Fydd yn rhaid i chi adael yr anifail ar ei ben ei hun yn yr eiddo am gyfnodau hir? Oes gennych chi anifeiliaid eraill i gadw cwmni iddo? Os oes gennych chi blant, a fydd yr anifail yn gyfforddus yn eu cwmni, ac fyddan nhw'n hapus yng nghwmni'r anifail?

Bwyd a diet

Gall bwydo anifeiliaid fod yn gostus. Ydych chi'n gallu cynnig diet cytbwys i'w gadw'n iach? Ydych chi'n gwybod faint fydd y gost o'i fwydo?

Perchnogion Anifeiliaid Anwes Cyfrifol

Ymddygiad anifeiliaid

Fyddwch chi'n gallu gofalu bod eich anifail anwes yn ymddwyn fel y dylai? Er enghraifft, mae angen mynd â chŵn am dro'n aml a rhoi cyfle iddynt gymdeithasu â chŵn eraill. Fydd gennych chi amser i'w hyfforddi? Mae'r rhan fwyaf o anifeiliaid yn mwynhau chwarae ag anifeiliaid eraill neu deganau.

Iechyd a lles

Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi ddiogelu'ch anifail anwes rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd. Ydych chi'n siŵr y byddwch yn gallu mynd â'r anifail at filfeddyg i gael ei archwilio a'i frechu'n rheolaidd? Os yw'ch anifail yn fenyw, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi wneud yn siŵr ei bod yn cael ei hysbaddu rhag iddi fridio.

Dull adnabod

Os ydych yn bwriadu cael ci, rhaid i chi wneud yn siŵr ei fod yn cael microsglodyn er mwyn medru ei adnabod. Rhaid i chi hefyd wneud yn siŵr bod gan eich ci goler â manylion adnabod arno. Cysylltwch â'ch swyddfa dai leol i holi am hyn.

Pan fyddwch chi oddi cartref

Pwy fydd yn gofalu am yr anifail pan fyddwch oddi cartref am gyfnodau hir, ar wyliau etc. Wrth ofyn am ganiatâd i gadw anifail, bydd angen i chi roi manylion person a fydd yn fodlon gofalu amdano mewn argyfwng, er enghraifft, os bydd yn rhaid i chi fynd i'r ysbyty.



Perchnogion Anifeiliaid Anwes Cyfrifol



Cysylltiadau defnyddiol os ydych yn chwilio am gyngor a chymorth

RSPCA

Elusen sy'n ymchwilio i gwynion am greulondeb neu esgeulustod. Mae ganddynt ysbytai a chlinigau i anifeiliaid sy'n eiddo i deuluoedd ar incwm isel. Mae ganddynt hefyd ganolfannau sy'n lletya cŵn sy'n chwilio am gartrefi newydd. Maent hefyd yn cynnig cyngor ynghylch gofalu am anifeiliaid a'u lles. Gallant gynnig cymorth ariannol, o bosibl, i ysbaddu anifeiliaid.

Ffôn: 0300 1234 555

www.rspca.org.uk

Llinell gymorth 24 awr National Cruelty: 0300 1234 999

DogsTrust

Elusen i hybu lles cŵn ac sy'n cynnig cyngor ynghylch bob agwedd ar fod yn berchen ar gi. Mae ganddynt 15 o ganolfannau i gŵn sy'n chwilio am gartrefi newydd. Mae'n ymgyrchu i hyrwyddo materion lles anifeiliaid ac yn trefnu rhaglenni addysg. Gall gynnig cymorth ariannol, o bosibl, i ysbaddu ac i osod microsglodyn mewn cŵn mewn rhai ardaloedd.

Ffôn: 020 7837 0006

www.dogstrust.org.uk

Cats Protection

Elusen sy'n rhoi cyngor ynghylch gofalu am gathod, ac sy'n rhedeg gwasanaeth achub i gael hyd i gartrefi newydd iddynt. Gall gynnig cymorth ariannol, o bosibl, i ysbaddu cathod.

Ffôn: 03000 12 12 12

www.cats.org.uk

PDSA

Elusen sy'n rhedeg clinigau anifeiliaid i roi gofal milfeddygol i anifeiliaid sy'n eiddo i deuluoedd ar incwm isel.

Ffôn: 01952 290999

www.pdsa.org.uk

The CinnamonTrust

Sefydliad sy'n helpu pobl hŷn i gadw eu hanifeiliaid anwes drwy drefnu i fynd â nhw am dro os ydych yn sâl, eu maethu os bydd angen i chi fynd i'r ysbyty am gyfnod ac yn chwilio am gartref da iddynt os byddwch yn marw a does neb arall i ofalu amdanynt.

Ffôn: 01736 757900

www.cinamon.org.uk

Swyddog Tai Cymdogaeth –

Ffoniwch eich canolfan gyswllt ar 01352 701500

www.siryfflint.gov.uk



Cais i gadw anifail anwes yn eich tŷ cyngor

Sylwch na fyddwch wedi cael caniatâd nes byddwch yn cael cadarnhad ysgrifenedig gan y Cyngor.

I gael caniatâd, bydd yn rhaid i chi gytuno i gadw at yr amodau a'r telerau sy'n gysylltiedig â'r math o anifail rydych yn bwriadu ei gadw.

Eich manylion chi

Eich enw: _____

Cyfeiriad: _____

Rhif ffôn: _____

E-bost: _____

Mewn sut fath o eiddo fyddwch chi'n cadw'ch anifail neu'ch anifeiliaid anwes?
(e.e. fflat dwy lofft ar y llawr isaf)

Oes drws yn agor o'r eiddo'n syth i ardd? Oes/Nac oes

Oes drws yn agor o'r eiddo'n syth i ardd neu le agored rydych yn ei rannu? Oes/Nac oes

Ydi'r Cyngor wedi gwrthod caniatâd i chi neu i aelod o'r teulu gadw anifail anwes yn y gorffennol? Ydi/Nac ydi

Ydych chi neu aelod o'r teulu wedi cael eich erlyn am drosedd yn erbyn anifail erioed? Do/Naddo



Cais i gadw anifail anwes yn eich tŷ cyngor

Manylion yr anifail rydych am ei gadw

Math o anifail:

Nifer pob math o anifail rydych am ei gadw:

Nodwch y brid neu'r math:

Os yw'r anifail yn fenyw, beth rydych wedi/mynd i'w wneud i'w hatal rhag bridio:

Rhowch fanylion person a fydd yn barod i ofalu am yr anifail os byddwch chi'n methu gwneud hynny, e.e. mewn argyfwng:

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

Rhif ffôn:



Cais i gadw anifail anwes yn eich tŷ cyngor

*Allwch chi ddiwallu anghenion yr anifail/anifeiliaid drwy ddarparu llety addas ac unrhyw offer arbenigol angenrheidiol?

Gallaf/Na allaf

Unrhyw sylwadau:

Os ydych chi wedi cael eich anifail anwes yn barod, rhowch rif y microsglodyn sydd ganddo, enw'r anifail a ffotograff ohono (cewch anfon y rhain rywdro eto os nad yw'r manylion gennych eto).

Datganiad

Drwy wneud y cais hwn i gadw anifail anwes, gallaf gadarnhau fy mod wedi darllen a deall y daflen sy'n dwyn y teitl "Perchnogion Anifeiliaid Cyfrifol: Canllawiau i Denantiaid Cyngor Sir y Fflint" ac rwy'n deall fy nghyfrifoldebau o dan fy nghytundeb tenantiaeth.

Rwy'n cadarnhau y byddaf yn cadw at yr amodau a ganlyn:

1. Rwy'n deall fy mod yn gwbl gyfrifol am ofal, lles ac ymddygiad fy anifeiliaid anwes a byddaf yn gwneud yn siŵr na fydd yn achosi unrhyw niwsans neu ofid i fy nghymdogion neu eraill, (er enghraifft, os oes gennyf gi, ni fyddaf yn gadael iddo gyfarth am gyfnodau hir, byddaf yn clirio unrhyw lanast y mae'n ei wneud, ac ni fyddaf yn caniatáu iddo ddifrodi eiddo).
2. Os wyf wedi gwneud cais i gadw ci, rwy'n deall bod yn rhaid iddo gael microsglodyn er mwyn i'r awdurdodau fedru ei adnabod os aiff ar goll.
3. Rwy'n deall bod bridio wedi'i wahardd a byddaf yn ystyried ysbaddu fy anifail i wneud yn siŵr na fydd yn cael rhai bach. (Cewch wybodaeth gan y Tîm Tai Cymdogaeth am gynlluniau i helpu gyda'r gost os ydych yn cael budd-daliadau penodol)
4. Byddaf yn gofalu am yr anifail drwy roi bwyd a diod addas iddo, drwy ofalu nad yw mewn poen, nad yw'n dioddef, yn cael ei anafu neu'n cael afiechyd a drwy wneud yn siŵr ei fod yn cael ymarfer corff yn rheolaidd.



Cais i gadw anifail anwes yn eich tŷ cyngor

5. Byddaf yn sicrhau bod gan fy anifail rywle addas i fyw a byddaf yn ei atal rhag dianc i eiddo cyfagos neu i leoedd rwy'n eu rhannu ag eraill. Ni fyddaf yn gadael iddo grwydro i leoedd rwy'n eu rhannu ag eraill.
6. Byddaf yn gwneud yn siŵr y byddaf yn clirio unrhyw lanast os bydd yr anifail yn bawo mewn lle cyhoeddus neu le rwy'n ei rannu ag eraill, neu yn fy ngardd fy hun, a byddaf yn cael gwared â'r llanast mewn ffordd briodol (e.e. drwy ei fflysio i lawr y toiled). Ni fyddaf yn ei adael nac yn ei roi yn y bin.
7. Rwy'n deall y bydd yn rhaid i mi dalu am unrhyw ddifrod y bydd fy anifail anwes yn ei achosi. Mae hyn yn cynnwys difrod i'ch eiddo chi (er enghraifft, y gost o gael gwared ar chwain neu blâu eraill a'r gost o drwsio unrhyw ddifrod i'r eiddo) gerddi neu leoedd a gaiff eu rhannu, os na fyddaf yn clirio'i faw).
8. Gallaf gadarnhau na wrthodwyd caniatâd i mi (nac unrhyw aelod o fy nheulu) gadw anifail anwes ac nad ydw i wedi cael fy erlyn am droseddu yn erbyn anifail.
9. Rwy'n deall bod gennych hawl i dynnu'r caniatâd i gadw anifail anwes yn ôl ac na chaiff perchnogion anifeiliaid anwes anghyfrifol gadw unrhyw anifeiliaid anwes yn eich eiddo, a deallaf hefyd y gallech roi fy manylion i'r RSPCA.
10. Rwy'n deall y gallwch roi fy manylion i filfeddyg neu'r RSPCA er mwyn iddynt roi gwybodaeth i mi am ofalu am fy anifail anwes. Rwy'n rhoi caniatâd i chi wneud hyn.

Printiwch eich enw llawn: _____

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Byddwn yn ceisio ymateb i geisiadau cyn pen 15 diwrnod gwaith. Os oes angen ymateb cyn hynny, esboniwch pam:

Ar ôl llenwi'r ffurflen, anfonwch hi at:
Y Tîm Tai Cymdogaeth, Cyngor Sir y Fflint, Lôn y Capel, Y Fflint,
Sir y Fflint CH6 5BD

